CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 25ain EBRILL 2017.

PRESENNOL:
Cynghorydd Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Ms Linda Jones, Mr Einion Parry Williams, Mrs Janet Hughes, Mr John Pritchard, Mr W Raymond Evans a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorwyr Sirol: Mr Hywel Eifion Jones.

YMDDIHEURIAD:
Cynghorwyr Mrs Catherine Jane Hughes, Mr Mike Jones, Mr Ian Owen, Mr Edward Thomas a Mr Meirion Thomas.

Cynghorwr Sirol: Mr Victor Hughes.

1 CROESO, DIOLCHIADAU & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

1.2 Gan fod hyn yn cyfarfod olaf Cyng Sirol Hywel Eifion Jones, diolchodd y Cadeirydd iddo am ei holl waith a parodrwydd I cynorthwyo'r Cyngor gyda dymuniadau gorau a phob iechyd iddo at y dyfodol.

1.3 Diolchodd Mr Hywel Eifion Jones i'r Cyngor a'r aelodau ac oherwydd iechyd roedd wedi methu cyfarfodydd ac felly ar ol 18 mlynedd o wasanaeth i'r Gymuned roedd wedi gwneud penderfyniad nad oedd am ail-sefyll yn yr etholiad o ddewis Cynghorydd Sirol. Diolchodd yn fawr iawn ac dymunodd pob llwyddiant i'r Cyngor am y dyfodol.

1.4 **Cais Chwarel Bwlch Gwyn** – dywedodd fod y cais yma gerbron y Pwyllgor Cynllunio ar y 26/4/2017 ac fod swyddogion y Cyngor Sir wedi bod yn ymweld a'r safle.

1.5 **Sefyllfa Ariannol Presennol y Cyngor Sir** – cafwyd adroddiad llawn ganddo gyda diolch.

1.6 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol** – nid oedd unrhyw aelod yn datgan diddordeb.

2 ADRODDIAD DATBLYGIADAU Y GORS DDYGFA & LLWYBR YMWELWYR.

2.1 Croesawyd Mr Ian Hawkins i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2.2 Cafwyd adroddiad cryno a diddorol ganddo am ugain munud ynghylch a'r datblygiadau oedd wedi ei amlinellu yn y ceisiadau cynllunio diweddaraf. Roeddynt wedi prynu tir ger Berw Uchaf i greu siroedd er mwyn caniatau bywyd gwyllt i ffynnu – ni fydd effaith llifogydd ac aeth ymlaen i dawelu pryderon yr aelodau. Deallir y bydd Dwr Cymru yn dechrau cynllun gwaith yn yr ardal rhag atal llifogydd rhywbryd yn y dyfodol agos. Diolchwyd i Mr Hawkins am rhannu'r holl wybodaeth yma gyda'r aelodau a gofyn i'r Clerc sicrhau y byddant yn derbyn copi erbyn y cyfarfod nesaf yn ogystal a taro'r adroddiad ar y safle we.

3 DERBYN COFNODION CYFARFOD BLAENOROL.

3.1 Derbyniwyd ac fe arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 28ain Mawrth 2017 yn gywir. (JH/EPW).

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

4.1 Dim mater yn codi.

5 MATERION CAEAU CHWARAE.

5.1 **Arwyddion y Caeau Chwarae** – parhau i ddisgwyl am amcancyfrifon Cwmni Sign Factory er mwyn adnewyddu arwyddion disgwylir hyn cyn symud ymlaen.

5.2 **Cae Peldroed Lon Groes & Prydles gyda CPD Gaerwen** – penderfynwyd gofyn i'r Clerc am ymateb swyddogol y Cyngor Sir ynghylch a sefyllfa y brydles er mwyn trafod y mater yn mwy manwl o ystyried nad oedd y Clwb Peldroed wedi ysgrifennu i'r Cyngor Cymdeithas yn gofyn am caniatad, er cwrteisi i'r DDAU diwrnod agored yn unol a amodion y brydles.

6 MATERION LLWYBRAU.

6.1 **Fforwm Mynediad Agored** – ymateb y Cyngor nad oedd Cyng Einion P Williams wedi anfon y papurau angenrheidiol yn nol atynt ond dywedodd Cyng Williams nad oedd wedi derbyn yn y lle cyntaf.

7 MATERION PRIFFYRDD.

7.1 **Llinellau Gwyn Cyffordd Lon Groes** – mewn llaw.

8 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

8.1 Cais Adran 73 Diwygio Amod 73.
LLEOLIAD – Ty Capel Pensarn, Pentre Berw (Rhif Cais - 33C152D/VAR).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

8.2 Cais Llawn Creu Mynedfa Newydd Cerbydau & Creu Trac Mynediad.
LLEOLIAD - Tros y Marian, Lon Groes, Gaerwen (Rhif Cais - 33C315).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

8.3 Cais Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol a wneir o annedd sef ei fod yn cael ei fyw ynddo gan weithiwr nad yw'n ymwneud ag amaethyddiaeth.
LLEOLIAD: Durham Lodge, Gaerwen. (Rhif Cais – 33C150C/LUC).
Penderfyniad: DIM SYLWADAU.

9 PENDERFYNIADAU ADRAN CYNLLUNIO.

9.1 Cais Adran 73 Diwygio Amodau – 4 Nant y Gors, Pentre Berw (33C295C/VAR) – **CANIATAD.**

10 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

10.1 **Adroddiad Ariannol Misol:**
Cyflwynwyd ac fe arwyddwyd adroddiad taliadau a derbyniadau Mis Ebrill 2017 yn cynnwys cysoniad banc a datganiad y banc.

10.2 **Unrhyw Daliadau Eraill** – DIM.

10.3 **Gweinyddu & Rheoli Risg –** Llythyr wedi ei dderbyn oddiwrth yr HSBC yn dweud ei bod yn tynnu'n nol ar ei gwasanaeth o cadw eitemau yn ddiogel.
Penderfyniad: Y Clerc i drefnu gyda'r Banc erbyn y cyfarfod nesaf.

11. ADRODDIADAU.

11.1 **Grwp Rhan Deiliad Cyngor Tref & Chymuned** – adroddiad oddiwrth Cyng Einion Williams.

11.2 **Cyfarfod Cangen Pwyllgor Ardal Mon - Un Llais Cymru –** adroddiad oddiwrth Cyng Janet Hughes a Cyng Raymond Evans.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 23ain MAI 2017.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clowyd y cyfarfod am 8::20yh.